

## Adroddiad y Prif Arholwr

### Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Ebrill 2017

*Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.*

### Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 32

Llwyddo: 7

Cyfran gymharol isel o'r ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus yn y rownd hon, gwaetha'r modd, er bod sawl un arall wedi llwyddo i gyrraedd y safon mewn un darn, ond heb gynnal y safon honno ar hyd y papur arholiad. Dim ond ambell ymgeisydd oedd wedi mynd i ddyfroedd dyfnion, ac roedd yn dda medru dweud bod mwyafrif y papurau a gyflwynwyd yn addawol, ac yn dangos, hyd yn oed os nad oeddent wedi llwyddo y tro hwn, fod gan yr ymgeiswyr syniad go lew o'r hyn oedd yn angenrheidiol i lwyddo.

Fel sy'n digwydd gan amlaf yn y papur sylfaenol, roedd y ddau ddarn a ddewiswyd i brofi'r ymgeiswyr yn ymdrin â phynciau digon cyfarwydd, fel nad oedd disgwyl i'r derminoleg na'r cysyniadau dan sylw achosi gormod o drafferth. Cafwyd rhywfaint o siom, felly, o weld bod cyfieithu 'Alzheimer's' wedi achosi trafferth i sawl un, gyda nifer yn methu dewis rhwng clefyd, salwch ac afiechyd, ac ambell un yn defnyddio mwy nag un o'r rheiny yn yr un darn! Syndod hefyd oedd gweld bod sawl un heb ddeall bod angen hepgor yr 's yn Gymraeg. Mae enghreifftiau megis ***Nid yw'r afiechyd Alzheimer's.../Mae'r achosion o'r clefyd Alzheimer's*** yn ddiffygiol ar sawl ystyr, nid yn unig oherwydd methiant i ddehongli'r elfen enidol yn enw'r clefyd, ond hefyd o ran methiant i ymdopi â strwythur y fannod yn y Gymraeg. Hyd yn oed ar y lefel sylfaenol, mae diffyg ymwybyddiaeth o batrymau iaith fel hyn yn siom annisgwyl.

Achoswyd anawsterau pellach i nifer o ymgeiswyr yn y darn cyntaf gan elfennau megis *the most common cause of dementia*

Wrth gyfleu hyn yn Gymraeg cafwyd enghreifftiau megis

***Dyma'r math mwyaf cyffredin o ddementia***

***Dyma'r rheswm mwyaf cyffredin dros dementia***

***Dyma ganlyniad mwyaf cyffredin dementia***

***Gan amlaf, fe sy'n achosi dementia***

***Mae'n arwain at dementia yn fwy na dim byd arall***

***Achos mwyaf cyffredin gorffwylltra ydyw***

Mae'r rhain i gyd, gwaetha'r modd, yn dangos anallu i ddadansoddi ystyr y gwreiddiol, sef un o hanfodion cyfieithu ar bob lefel. Carwn annog pob un o'r ymgeiswyr, fel mater o arfer da, i ddarllen y darn drwyddo'n ofalus cyn dechrau cyfieithu, er mwyn sicrhau eu bod wedi deall yr ystyr yn iawn; fel arall, ni all eu cyfieithiad fod yn llwyddiannus. Sylwer bod 5 munud ar gael i'r diben hwn ar ddechrau'r arholiad, a dylid manteisio'n llawn ar hynny.

Cafwyd trafferthion hefyd gydag elfennau megis *regions of the brain* (roedd ambell un wedi dewis y gair **rhanbarthau**, sy'n gwbl amhriodol o ran cywair); *true disease* (cafwyd cynigion megis **mae'n wir afiechyd/mae'n glefyd/mae'n afiechyd yng ngwir ystyr y term/mae'n afiechyd o'r iawn ryw**, er bod llawer hefyd wedi gwneud dewis da trwy ddefnyddio **go iawn**); a *memory lapses* (roedd sawl un wedi dweud yn syml **anghofio/colli'r cof/diffyg cofio**, er bod llawer hefyd wedi cynnig cyfieithiadau gwell megis **pall ar y cof/y cof yn methu/llithriadau cof**).

Wedi dweud hyn i gyd, roedd pethau addawol a chyfieithu llwyddiannus i'w gweld yng ngwaith mwyafrif yr ymgeiswyr, e.e.:

*Alzheimer's is a disease which causes deterioration of the human brain*  
**Mae clefyd Alzheimer yn peri i'r ymennydd dynol ddirywio**

*Alzheimer's disease is not an inevitable part of normal ageing*  
**Nid yw clefyd Alzheimer yn rhan annatod o heneiddio arferol**

*... to walk down the street where you have always lived*  
**...i gerdded lawr y stryd yr ydych wedi byw arni erioed**

*The symptoms of Alzheimer's disease are caused by a loss of nerve cells in certain regions of the brain*  
**Caiff symptomau clefyd Alzheimer eu hachosi wrth i nerfelloedd gael eu colli mewn rhannau penodol o'r ymennydd**

*...a place you know like the back of your hand...*  
**...rhywle sydd mor gyfarwydd i chi â chefn eich llaw...**

Er mai gwaith ar y lefel sylfaenol oedd hwn, trueni oedd gweld rhyw draean o'r ymgeiswyr yn methu cyrraedd y safon yn yr elfen 'Cywirdeb', a hynny oherwydd gwallau esgeulus fel y canlynol:

**oddi fewn i'w cartrefu eu hunain**  
**dychmygwch gadael**  
**mae yn glefyd wirioneddol**  
**oddeuty yn dyblu**  
**25% o bobl droes 80 oed**  
**ers flynyddoedd maith**  
**Mae symptomau clefyd Alzheimer yn cael ei achosi**  
**beth â ddigwyddai**  
**cynyrchu**  
**amaethyddiaeth cynaliadwy**  
**yn hytrach nac unigolyn**

**ymarfezion**  
**ffermio gymunedol**  
**gall gymunedau lleol**

Gwendid arall a welwyd gan sawl ymgeisydd, gwaetha'r modd, oedd mynegiant trwsogl. Fel y pwysleisiwyd yn y gorffennol, rhaid dadansoddi union ystyr y gwreiddiol, ond wedi gwneud hynny, mae angen cael hyd i ffordd o fynegi'r hyn a ddeallwyd mewn modd naturiol Gymraeg, rhywbeth na lwyddwyd i'w gyflawni mewn enghreifftiau fel y rhain:

***...mae grŵp cymuned, dim am elw, yn gyfrifol am reolaeth o beth fydd yn digwydd...***

***Achosir symptomau clefyd Alzheimer gan golled o nerf gelloedd...***

***Dyma ddim ond un o'r symptomau o glefyd Alzheimer.***

***...a gall ddatblygu gyda chryn gyflymder nid yw'n cael ei ddarganfod tan ei fod wedi datblygu'n ormodol.***

***Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys penderfyniadau sy'n ymwneud â dyraniadau mewn perthynas â defnydd y tir amaeth...***

***...ac eisiau mwynhau bwyd ffres ac iachus yn unig mae eraill***

Er bod elfennau da ac addewid amlwg yng ngwaith llawer o'r ymgeiswyr, felly, gan fod y nodweddion hynny i'w gweld ochr yn ochr â gwallau fel y rhai a nodwyd uchod, a hefyd rai enghreifftiau o hepgor elfennau neu orgyfieithu, nid yw'n syndod o bosibl bod cryn nifer o'r ymgeiswyr (llwyddiannus ac aflwyddiannus) yn ffiniol y tro hwn. Ar y lefel sylfaenol, gellir maddau nifer o fân wallau o dan amodau arholiad, ond gwaetha'r modd, ac eithrio yn achos y 7 a fu'n llwyddiannus, teimlwyd y tro hwn fod y gwallau'n gorbwyso'r elfennau boddhaol. Yr anogaeth i'r ymgeiswyr aflwyddiannus, felly, fel cynifer o weithiau o'r blaen, yw eu bod yn mynd ati i gryfhau eu hymwybyddiaeth o batrymau naturiol y Gymraeg, a hefyd yn dysgu (neu'n mireinio) crefft prawfddarllen a chywiro gwaith, gan fod llawer o'r gwallau a welwyd yn rhai y disgwylid eu cywiro ar unwaith o brawfddarllen yn ofalus.

## **Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

Nifer yr ymgeiswyr: 13

Llwyddo: 6

Braf oedd gweld bron hanner yr ymgeiswyr yn llwyddo y tro hwn, a da hefyd oedd gweld bod ambell un wedi dod yn agos at gyflawni rhagoriaeth yn y ddau ddarn. Wedi dweud hynny, roedd safon trwch yr ymgeiswyr yn tueddu i amrywio, ac o ganlyniad, roedd llawer iawn o'r sgriptiau, fel yn achos y papurau i'r Gymraeg, yn rhai ffiniol. Golygai hynny fod angen pwysu a mesur yr elfennau llwyddiannus ac aflwyddiannus yn ofalus, gan faddau ambell lithriad yng ngwaith ymgeiswyr oedd fel arall yn gadarn eu gafael ar batrymau'r Saesneg.

Yn gyffredinol, gellir dweud bod yr ymgeiswyr wedi cael gwell hwyl ar yr ail ddarn, o bosib oherwydd bod ieithwedd llywodraeth leol yn gyfarwydd i gryn nifer ohonynt, ond cafwyd enghreifftiau o gyfieithu craff yn y ddau ddarn, e.e.:

*aros...heb fentro ei bywyd ar y paith.*

**opting not to endanger her life on the prairie.**

*Ers y blynyddoedd cynnar, canmolwyd y croeso a gâi ymfudwyr newydd ar yr aelwydydd Cymreig.*

**The welcome afforded to new emigrants in the Welsh homes has been commended since the early years.**

*caledi na allwn ni ei amgyffred...*

**hardships that we cannot possibly imagine...**

*dewrder tawel y mamau*

**the quiet courage of the mothers**

*Nid eithriad yw'r hanes hwn*

**This account is no exception**

*yn ddall neu'n ddewr*

**brave or blinkered**

*Cynhaliwyd yr arolygiad mewn "cyfnod o newid sylweddol"*

**The inspection took place during a "period of significant change"**

*...yn dilyn adroddiad beirniadol am y gwasanaethau plant sydd ar gael yn y sir.*

**...following a critical report on the children's services available in the county.**

*Mae'r Arolygiaeth yn galw ar y cyngor i lunio cynllun gwella o fewn 20 diwrnod*

**The Inspectorate is calling on the council to draw up an improvement plan within 20 days**

Gwaetha'r modd, ochr yn ochr ag enghreifftiau fel y rhain, cafwyd hefyd gyfieithu aflwyddiannus oedd yn dangos diffyg ymwybyddiaeth o batrymau naturiol y Saesneg, yn ogystal â methiant i gyfleu ystyr y gwreiddiol e.e.:

*...wedi profi caredigrwydd disgynyddion y merched cyntaf hynny*

**...have experienced the kind posterity of the early women**

*...heb fentro ei bywyd ar y paith*

**...never ventured forth to a life on the pampas**

*...galw am lunio cynllun gweithredu a gwella ansawdd yr ymarfer*

**...calling for an action and improvement plan to be created for the practice**

*...ymateb i ganfyddiadau allweddol yr adroddiad*

**...respond to the critical perceptions within this report**

Roedd enghreifftiau fel y rhain, yn ogystal â chynnwys dewisiadau geirfaol anaddas, yn glogyrnog iawn eu mynegiant, ac yn dangos diffyg gallu ar ran yr ymgeiswyr i 'glywed' cyweiriau'r Saesneg. Enghreifftiau pellach o ddiffygion tebyg oedd y canlynol:

*O fewn tri mis roedd dau o'r plant wedi marw*

**Within three months, three of the children were deceased** ['had died' fuasai'n naturiol yma]

*Nid eithriad yw'r hanes hwn*

**There is nothing exceptional to this story** [Mae cyfeirio at rywbeth fel 'this ... is no exception' yn ddywediad mor gyfarwydd yn Saesneg fel bod methiant i gyfieithu'n gywir yn y fan hon yn peri cryn syndod]

*Onid fel ei gŵr, aros yng Nghymru a wnaeth Anne*

**But, as her husband, Anne was to remain in Wales** ['like', nid 'as', sy'n gywir yn y fan hon, ac ymddengys bod yr ymgeisydd wedi drysu rhwng y patrwm hwn a sefyllfaoedd eraill lle nad yw 'like' yn dderbyniol]

Cafwyd enghreifftiau eraill lle na lwyddwyd i gyfleu ystyr y gwreiddiol yn llwyddiannus, e.e. defnyddio **damning** am *beirniadol*, **fundamental change** am *newid sylweddol*, **restraining services** am *gwasanaethau ataliol*, **intervene** am *ymateb* a **that would be starting** am *a fydd yn dechrau*.

Un pwynt arall gwerth ei nodi, cyn cloi, yw bod yr ail ddarn yn cynnwys ambell deitl swyddogol (AGGCC/Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), a bod sawl ymgeisydd wedi manteisio ar y cyfle i gynnwys troednodiadau i nodi y buasent fel arfer yn gwirio'r ffurfiau Saesneg cywir ar y we. Mae hynny'n arfer da, ond wrth fynd heibio, teimlaf y dylid rhoi cyfarwyddyd i'r ymgeiswyr i gadw'r troednodiadau mor gryno â phosib, a'u cynnwys dim ond pan fo gwir angen, e.e. i restru termau swyddogol fel y nodwyd uchod, neu i amlygu sefyllfa lle buont mewn cyfyng-gyngor, ac yn awyddus i ddangos nad dewis difeddwl oedd yr hyn a roddwyd yn y cyfieithiad terfynol.

Wrth longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, felly, fel mor aml yn hanes yr arholiadau, rhaid eu hannog hwythau, yn ogystal â'r ymgeiswyr aflwyddiannus, i fanteisio ar bob cyfle i drwytho'u hunain mewn Saesneg safonol, a darllen yn eang, fel bod patrymau'r iaith honno'n llifo'n naturiol trwy eu gwaith a'u bod yn datblygu'r elfennau addawol a welwyd yn eu gwaith hyd yma.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch unwaith yn rhagor i'r holl farcwyr ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Prif Arholwr.

**Fiona Gannon**  
**Mai 2017**